# CYNGOR BRO MORGANNWG

## PANELI APELIADAU ADDYSGOL

# NODIADAU CANLLAW

**NODIADAU CANLLAW AR GYFER Y GWRANDAWIAD APELIADAU YN GYSYLLTIEDIG Â:**

**(I)** **DERBYN DISGYBLION I YSGOLION AMGEN (GAN GYNNWYS BLWYDDYN DERBYN) (ATODIAD "A")**

**(2)** **GWAHARDD DISGYBLION (ATODIAD "B")**

**RHAGFYR 2016**

**AM RAGOR O WYBODAETH, CYSYLLTWCH Â:**
**GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD (01446) 709413**
**E-BOST: DEMOCRATIC@VALEOFGLAMORGAN.GOV.UK**

## CYFLWYNIAD

Mae’r Nodiadau Canllaw hyn yn ymwneud ag (i) apeliadau gan Rieni mewn perthynas â phenderfyniadau yn gysylltiedig ag ysgolion y dylai eu plant eu mynychu (Apeliadau Derbyn) ac (ii) apeliadau gan Rieni mewn perthynas â phenderfyniadau yn gysylltiedig â gwahardd plant sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol (Apeliadau Gwahardd). Mae’r cynnwys yn seiliedig ar ganllawiau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae’n bwysig cofio y dylai gwrandawiadau apêl gael eu cynnal mewn awyrgylch mor anffurfiol â phosibl. Ar yr un pryd, rhaid i Rieni fod yn hyderus eu bod yn derbyn gwrandawiad teg gan Banel Apêl amhleidiol sy’n gweithredu’n annibynnol o’r Awdurdod Lleol; rhaid osgoi unrhyw arwydd o ragfarn.

Mae’r broses o gynnal Paneli Apeliadau yn dod dan awdurdod yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol a’r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

DYLAI HOLL BENDERFYNIADAU PANELI APELIADAU FOD YN SEILIEDIG AR YR AMGYLCHIADAU UNIGOL MEWN PERTHYNAS Â PHOB ACHOS PENODOL. MAE’R CYNGOR YN RHWYM I'R PENDERFYNIADAU A WNEIR.

## AELODAETH

### Panel Apeliadau Derbyn i Ysgolion

O ran cyfansoddiad y Paneli Apeliadau, mae amryw gyfyngiadau ar aelodaeth. Yn benodol, mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apeliadau Derbyn i Ysgolion) (Cymru) 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Baneli Apeliadau gynnwys "aelod lleyg", a ddiffinnir fel:-

(i) “person heb brofiad blaenorol o reoli unrhyw ysgol neu ddarparu addysg mewn unrhyw ysgol (ac eithrio fel llywodraethwr neu mewn unrhyw fodd gwirfoddol arall);

(ii) person sydd â phrofiad ym maes addysg; sy’n gyfarwydd ag amodau addysgol yn ardal yr Awdurdod Lleol; neu sy'n Rhieni i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol."

O ganlyniad i’r uchod, bydd dau gategori o aelodau'r Panel Apêl yn cael eu penodi:

(i) aelodau lleyg;

(ii) aelodau addysgol (e.e. y rheiny sydd wedi’u hatal rhag bod yn aelodau lleyg ond sydd dal yn gallu cael eu penodi gan yr Awdurdod).

Caiff paneli eu dewis o Banel o Aelodau a benodir yn unol â’r uchod. Er bod deddfwriaeth yn caniatáu i Baneli gael tri neu bum aelod, mae profiad wedi dangos mai'r nifer mwyaf ymarferol o aelodau ar Banel yw tri. Mae hyn yn

helpu i greu awyrgylch anffurfiol ac yn sicrhau bod cyfres o gyfarfodydd yn haws eu trefnu pan fo angen i'r un aelodau glywed nifer fawr o apeliadau ar gyfer un ysgol benodol.

## Panel Apeliadau Gwaharddiad

Caiff trefniadau Paneli Apeliadau mewn perthynas â Gwaharddiadau Parhaol eu creu'n wahanol i'r Paneli Derbyn i Ysgolion. Mae Cylchlythyr Canllaw Cynulliad Cenedlaethol Cymru 1/2004 - Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Atgyfeirio Disgyblion (Cynhwysiant Cymdeithasol) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Paneli hyn gynnwys o leiaf 1 Aelod Lleyg, 1 Ymarferydd Addysg ac 1 Llywodraethwr Ysgol. Cyfeirir at y diffiniad o "aelod lleyg" yn y trefniadau Apêl Derbyn i Ysgolion. Fodd bynnag, mae cylchlythyr 1/2004 yn nodi'r diffiniad o Ymarferydd Addysg a Llywodraethwr Ysgol. Sef:

- Ymarferydd Addysg - pennaeth neu berson arall sy'n gweithio ym maes rheoli addysg ar hyn o bryd;

- Llywodraethwr Ysgol - rhaid i'r Llywodraethwr fod wedi gwasanaethu am 12 mis yn olynol o fewn y 6 mis diwethaf ac heb fod yn bennaeth neu athro yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.

Fel gydag Apeliadau Derbyn i Ysgolion, mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i'r Paneli gael 3 neu 5 aelod.

## CLERC I'R PANEL

Bydd Clerc yn bresennol ym mhob Panel Apêl, a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod ffeithiau perthnasol yn cael eu sefydlu, y cydymffurfir â rheoliadau a bod y gwrandawiad apêl yn un teg. Ystyrir y Clerc fel ffynhonnell cyngor annibynnol ar y weithdrefn a thystiolaeth. Os oes angen, gall y Clerc ymyrryd ar ran y Rhieni neu'r Panel, yn benodol i sicrhau bod achos yn cael ei sefydlu a bod materion ffeithiol nad ydynt yn rhan o anghydfod yn cael eu nodi'n glir.

Mae'n arbennig o bwysig i'r Clerc sicrhau y cydymffurfir â'r broses dau gam mewn perthynas â'r apeliadau derbyn i ysgolion. Pryd bynnag y mae Panel yn gwadd partïon i adael wrth iddynt ystyried penderfyniad, bydd y Clerc yn aros gyda'r Panel, ond dim ond ar gyfer y diben o gynnig cyngor ar y weithdrefn neu'r gyfraith.

## TREFNIADAU MEWN PERTHYNAS Â MATHAU PENODOL O APÊL

Mae'r canllawiau ar gyfer y gwrandawiad apeliadau wedi'u nodi yn yr Atodiadau atodedig. Caiff copi o'r canllawiau eu rhoi i'r holl Rieni ar yr adeg y trefnir eu hapêl.

**ATODIAD "A"**

**APELIADAU DERBYN I YSGOLION**

**Hysbysiad Apêl**

Wrth roi gwybod i Rieni am benderfyniad i beidio â diwallu eu dewis, bydd y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau hefyd yn rhoi ffurflen apelio i'r Rhiant.

Dylai rhiant (ac eithrio rhiant y mae ei blentyn wedi'i eithrio o ddwy ysgol) y mae ei blentyn wedi cael gwrthod unrhyw le ysgol, neu berson ifanc sydd wedi cael gwrthod lle yn y chweched dosbarth sy'n anfodlon â phenderfyniad Awdurdod Lleol mewn perthynas â'r ysgol lle y darperir addysg i'w plentyn, apelio o fewn 14 diwrnod (10 diwrnod gwaith) o'r dyddiad y rhoddwyd gwybod am y penderfyniad. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, caiff apeliadau a gyflwynir y tu allan i'r cyfnod hwn eu hystyried. Pan dderbynnir apêl hwyr, caiff ei glywed lle bynnag y bo'n bosibl ar yr un pryd, neu cyn gynted â phosibl, ar ôl unrhyw apeliadau eraill a glywir mewn perthynas â'r un ysgol a grŵp blwyddyn a chan Banel Apêl sy'n cynnwys yr un aelodau.

Rhaid cyflwyno'r apêl yn ysgrifenedig, gan nodi'r rhesymau drosti. **Os bydd Rhiant yn cyflwyno gwybodaeth ychwanegol ar ddiwrnod y gwrandawiad, gallai hyn arwain at yr apêl yn cael ei ohirio i ganiatáu i'r wybodaeth gael ei gwirio, gyda'r gwrandawiad yn cael ei chynnal ar ddiwrnod arall. Mae hyn er mwyn caniatáu i'r Panel geisio cadarnhad annibynnol ar faterion megis amodau meddygol neu gyfeiriad y Rhiant.**

**Hawliau Cynrychiolaeth**

Caiff rhieni y cyfle i ymddangos yn bersonol a chyflwyno sylwadau llafar i'r Panel Apeliadau. Caiff rhieni y cyfle i ddod â ffrind, ymgynghorydd, dehonglwr neu lofnodydd gyda hwy neu gael cynrychiolydd. Mae'r pwyslais ar awyrgylch anffurfiol wedi dangos nad oes angen cynrychiolaeth gyfreithiol yn aml, ond mae'n hollol dderbyniol. Pe bai Rhiant yn cael ei gynrychioli neu ei hebrwng gan ymgynghorydd, dylai Clerc i'r Panel gael gwybod ymlaen llaw.

Ni ddylai rhieni gael eu hebrwng gan aelod o'r Cyngor, swyddog yr Awdurdod Lleol, Aelod Cynulliad neu wleidydd lleol, oherwydd gallai hyn arwain at wrthdaro o ran buddiannau, achosi annhegwch o ran rhieni eraill a rhoi pwysau diangen ar y Panel.

Ni fyddai fel arfer yn angenrheidiol i'r plentyn dan sylw fynychu'r gwrandawiad, nac i dystion eraill gael eu galw, er gall y Rhiant ddewis sut i gyflwyno ei achos yn y modd gorau posibl yn ei farn ef. Caiff rhieni eu hannog i fod yn bresennol i gyflwyno eu hachos ond cânt wybod os na fyddant yn bresennol ac nad yw'n ymarferol i gynnig dyddiad arall ar gyfer y gwrandawiad, y bydd rhaid i'r apêl gael ei benderfynu ar y wybodaeth a gyflwynir ganddynt a chan y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau.

**Hysbysiad o Wrandawiad**

Rhaid i rieni gael eu hysbysu'n ysgrifenedig o leiaf 14 diwrnod (10 diwrnod gwaith) cyn dyddiad eu gwrandawiad apêl, oni bai eu bod wedi cytuno i gyfnod byrrach (os bydd Rhieni yn cytuno i gyfnod hysbysiad byrrach, dylent gadarnhau hyn gyda'r Clerc i'r Panel yn ysgrifenedig, neu dros e-bost).

**Paratoi a Chynhyrchu Tystiolaeth**

O leiaf 7 diwrnod (5 diwrnod gwaith) cyn y gwrandawiad, bydd y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau yn rhoi'r wybodaeth ganlynol i Glerc y Panel Apêl, a fydd yn ei rhannu â'r rhieni:

(i) Enwau'r Aelodau Panel a'r Clerc, gyda'r rhybudd y gallant newid oherwydd amgylchiadau nas gellir eu hosgoi;

(ii) Datganiad ysgrifenedig yn crynhoi'r cymhwysiad o bolisi derbyn i ysgolion yr Awdurdod i'r achos dan sylw, gydag unrhyw wybodaeth gefndir berthnasol;

(iii) Datganiad ysgrifenedig yn crynhoi'r rhesymau dros y penderfyniad;

(iv) copïau o unrhyw wybodaeth neu ddogfennau i'w cyflwyno i'r Panel yn y gwrandawiad, gan gynnwys unrhyw beth sydd wedi'i gyflwyno i'r Rhieni.

**Lleoliad**

Rhaid defnyddio lleoliad niwtral ar gyfer y gwrandawiad apêl.

**Materion i'w Hystyried**

Dylai'r materion i'w cynnwys gan y Panel Apêl gynnwys:

(i) Nifer Derbyn

(ii) Rheoliadau Maint Dosbarth Babanod

(iii) Polisi a Threfniadau Derbyn

(iv) Cyfrifiad Capasiti Ysgol

(v) Cynllun Adeilad Ysgol ac Adnoddau

(vi) Dewis y rhieni.

Mae gofyn i Awdurdodau Lleol dan Adran 86(2) Deddf Addysg 1998 gydymffurfio â dewis y rhieni ac eithrio mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig, sef:

- lle byddai derbyn y plentyn yn cael effaith niweidiol ar ddarparu addysg effeithlon neu'r defnydd effeithlon o adnoddau. Gallai effaith niweidiol hefyd godi o'r mesurau sy'n ofynnol i gydymffurfio â'r cyfyngiad ar feintiau dosbarth babanod (a elwir effaith niweidiol ar faint dosbarth);

- pan fo ysgol breswyl y wladwriaeth wedi gosod niferoedd derbyn ar wahân ar gyfer disgyblion dydd a disgyblion preswyl a gyda mwy o ymgeiswyr ar gyfer un o'r categorïau na nifer y lleoedd sydd ar gael, er y gallai lleoedd fod ar gael yn y categori arall;

- pan fo chweched dosbarth yn cael ei ddewis yn gyfan gwbl gan allu uchel neu addasrwydd ac na fyddai derbyn y disgybl yn cydweddu â detholiad o'r fath dan y trefniadau derbyn;

- lle bo'r plentyn wedi'i eithrio'n barhaus o ddwy ysgol neu fwy a bod o leiaf un o'r gwaharddiadau wedi digwydd o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r gofyniad i gydymffurfio â dewis rhieni yn cael ei ddatgymhwyso am gyfnod o ddwy flynedd ar ôl yr ail waharddiad. Nid yw hyn yn berthnasol i blant dan yr oed ysgol gorfodol neu ddisgyblion a gafodd eu hailddderbyn ar ôl cael eu gwahardd. Caiff gwaharddiad parhaol ei weithredu o'r diwrnod ysgol cyntaf y mae'r pennaeth wedi dweud wrth y disgybl i beidio â dod i'r ysgol.

## Apeliadau Grŵp

Os yw'n ymarferol, gall y Panel Apêl wneud trefniadau i glywed mwy nag un apêl mewn perthynas ag un ysgol benodol ar yr un pryd. Yn yr achos hwnnw, bydd yr Awdurdod Lleol yn cyflwyno ei achos cyffredinol ym mhresenoldeb yr holl Rieni. Ar ôl hynny, caiff y rhieni y cyfle i gael eu hapêl eu hunain wedi'i glywed ar wahân.

Os bydd mwy nag un apêl yn ymwneud â'r un Grŵp Blwyddyn yna caiff yr apeliadau eu grwpio yn ôl Grwpiau Blwyddyn fel bod yr apeliadau yn cael eu clywed gyda'i gilydd.

Pan fo nifer o apeliadau ar gyfer yr un ysgol yn cael eu hystyried, yna bydd y Panel yn clywed yr holl achosion cyn penderfynu ar bob un o'r ddau gam (gweler tudalen 6).

## Maint Dosbarth Babanod

Mae cyfyngiadau statudol ar feintiau dosbarth yn nodi, yn unol â rhai eithriadau cyfyngedig, ni all dosbarthiadau babanod (Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) gynnwys mwy na 30 o ddisgyblion. Caiff yr eithriadau cyfynedig eu disgrifio mewn manylder ym mharagraff 3.48 y Cod Derbyn i Ysgolion.

Gall yr Awdurdod Lleol wrthod derbyn plentyn i ysgol lle byddai gwneud hynny yn cael effaith niweidiol ar faint y dosbarth, hynny yw yn cael effaith niweidiol ar addysg effeithlon neu ddefnydd effeithiol o adnoddau o ganlyniad i'r mesurau y

byddai eu hangen i gydymffurfio â'r ddyletswydd i gyfyngu ar faint dosbarthiadau meithrin.

Fodd bynnag, mewn perthynas â'r flwyddyn derbyn, ni ellir dweud bod effaith niweidiol o'r fath yn codi oni bai y derbynnir mwy o ddisgyblion na nifer derbyn yr ysgol.

Mewn perthynas â derbyn Blynyddoedd 1 a 2 ni ddylai awdurdodau fel arfer wrthod derbyn ar sail maint dosbarth oni bai y derbynnir mwy o ddisgyblion na nifer derbyn yr ysgol.

Mae gallu Panel Apêl Derbyn i Ysgolion i gynnal apêl yn erbyn diffyg derbyn yn gyfyngedig pan fo'r awdurdod derbyn wedi gwrthod derbyn disgybl ar sail effaith niweidiol ar faint dosbarth. <u>Ar gyfer y categori apêl hwn, ni fydd proses pwyso a mesur dau gam mwyach wrth benderfynu ar apeliadau.</u>

Ni all y categori apêl hwn gael ei gynnal oni bai bod panel apêl yn fodlon bod un o'r seiliau canlynol yn berthnasol:

**Sail A** – byddai plentyn wedi cael cynnig lle pe bai'r trefniadau derbyn i ysgolion wedi cydymffurfio â gofynion y Cod Derbyn i Ysgolion a/neu Ran 3 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;
**Sail B -** byddai'r plentyn wedi cael cynnig lle pe bai'r trefniadau derbyn priodol wedi'u gweithredu'n gywir;
**Sail C** – nid oedd y penderfyniad yn un y byddai awdurdod derbyn rhesymol wedi'i wneud yn amgylchiadau'r achos.

**Ni fydd Panel Apêl yn gallu cynnal apêl derbyn oni bai nad oedd penderfyniad yn un y byddai'r awdurdod derbyn rhesymol wedi'i wneud yn amgylchiadau'r achos neu y byddai'r plentyn wedi cael cynnig lle pe bai'r trefniadau derbyn wedi'u gweithredu'n gywir.** Er hynny, mae'n bwysig yn yr achosion hyn bod Awdurdodau Addysg Lleol a llywodraethwyr ysgol sy'n gyfrifol am drefnu apeliadau yn rhoi gwybod i Rieni bod ganddynt hawl i fod yn bresennol yn eu gwrandawiad apêl.

## <u>Dod i Benderfyniadau ar Apeliadau, Ac Eithrio Apeliadau Maint Dosbarth Babanod</u>

Rhaid i broses dau gam gael ei defnyddio yn achos yr holl apeliadau effaith niweidiol ac eithrio lle bo effaith niweidiol ar faint dosbarth yn broblem. Mae'r paragraffau canlynol yn disgrifio camau ac amgylchiadau lle mae'n rhaid cynnal apeliadau.

(i) **Cam 1 – cam ffeithiol** i'r Panel: a) ystyried p'un a ddefnyddiwyd y trefniadau derbyn cyhoeddedig yn gywir ac yn amhleidiol a b) penderfynu fel mater o ffaith p'un a fyddai effaith niweidiol yn codi pe bai'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei dderbyn.

(ii) **Cam 2 – Cam pwyso a mesur** i'r Panel arfer ei ddisgresiwn, gan gynmharu maint yr effaith niweidiol yn erbyn achos y Rhiant, cyn dod i benderfyniad.

Os nad yw'r Panel yn credu bod y meini prawf derbyn i ysgolion ar gyfer yr ysgol wedi'u defnyddio'n gywir ac amhleidiol ar gyfer y disgybl dan sylw rhaid iddo benderfynu p'un a fyddai defnydd priodol o'r meini prawf wedi arwain at ei dderbyn ef neu hi. Os mai dyna'r achos, **rhaid** i'r Panel gynnal yr apêl a pheidio mynd ymlaen i'r cam pwyso a mesur.

Yn yr un modd, os nad yw'r Panel Apelio yn fodlon ar y cam cyntaf y byddai effaith niweidiol pe bai'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei dderbyn i'r ysgol, a dim ond un apêl sydd ar gyfer yr ysgol, **rhaid** i'r Panel ganiatáu'r apêl.

**Trefn Achosion**

Cyn dechrau pob gwrandawiad, bydd y Clerc yn esbonio'r gweithdrefnau sylfaenol i'r Rhieni ac yn delio ag unrhyw gwestiynau y gallai fod ganddynt, yn gysylltiedig â'r weithdrefn yn unig, ar ddechrau'r gwrandawiad.

Bydd y Cadeirydd yn esbonio, ar ddechrau'r gwrandawiad, y weithdrefn i'w dilyn ac yn rhoi gwybod i unrhyw Rieni am natur annibynnol y Panel Apêl a bod yr Awdurdod yn rhwym i'w ddarganfyddiadau.

Yn unol ag unrhyw ddiwygiad i'r drefn achosion ganlynol y gallai gael ei gynnig gan y rhiant a'i gytuno gan y Panel Apêl, (a elwir y broses dau gam) bydd y Panel yn gwrando yn y drefn ganlynol:

(i) yr achos ar gyfer yr Awdurdod Lleol;

(ii) cwestiynu gan y Rhieni;

(iii) cwestiynu gan aelodau'r Panel.

**(D.S. Nid yw ail ran y broses dau gam yn berthnasol i achosion o apeliadau mewn perthynas â maint dosbarth babanod.)**

Ar y cam hwn, bydd y panel yn ystyried p'un a bod yr Awdurdod Lleol wedi sefydlu achos ar gyfer effaith niweidiol (fel arfer y ddadl fyddai y byddai derbyn disgybl arall yn "cael effaith niweidiol ar ddarparu addysg effeithlon neu'r defnydd effeithlon o adnoddau"). Cyhyd a bod y Panel yn derbyn achos yr Awdurdod, y cam nesaf yw:

(iv) yr achos i'r Rhiant;

(v) cwestiynu gan aelodau'r Panel;

(vi) cwestiynu gan yr Awdurdod;

(vii) ymateb a chasgliad gan yr Awdurdod;

(viii) casgliad gan y Rhiant.

Gall y Panel ohirio unrhyw achos i alluogi Rhiant nad yw'n bresennol i fynychu, i

dderbyn tystiolaeth bellach, neu oherwydd salwch neu absenoldeb aelod o'r Panel neu am unrhyw reswm priodol arall.

Os codir nifer o faterion newydd am y tro cyntaf yn y gwrandawiad, gallai fod angen gohirio i ganiatáu i unrhyw barti ystyried y materion. Dylai rhieni gael gwybod os byddant yn cyflwyno gwybodaeth yn yr apêl sydd angen ei gwirio, gallai fod angen ail-gynnal yr apêl yn dilyn ymchwiliad i'r materion a godwyd.

Ni fydd gwrandawiad apêl gan y Panel Apêl ar agor i'r wasg na'r cyhoedd, ac ni fyddai disgwyl i'r Panel wneud unrhyw ddatganiad cyhoeddus mewn perthynas ag unrhyw achos unigol a ddaw o'i flaen. Fodd bynnag gall unrhyw aelod o'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd fynychu'r achosion fel arsylwr yn unig.

Os yw'r Panel Apêl o'r farn y gallai trafodaeth bellach rhwng y Rhiant a'r Awdurdod arwain at setlo'r mater ar y cyd, gallai'r Panel ohirio ei achosion i ganiatau i drafodaethau felly gael eu cynnal.

## Penderfyniadau'r Panel Apêl

Rhaid i Baneli Apeliadau gynnal neu wrthod apêl ac ni chaiff gynnal apêl yn unol ag amodau penodol.

Mae'r Awdurdod yn rhwym i benderfyniadau'r Paneli Apeliadau. Pe na bai penderfyniad Panel yn unfryd, yna dylai'r apêl dan ystyriaeth gael ei benderfynu yn ôl y mwyafrif o bleidleisiau.

Caiff penderfyniad y Panel Apêl a'r sail dros y penderfyniad ei nodi yn ysgrifenedig ar ôl dyddiad yr apêl i'r Rhiant a'r Awdurdod gan y Clerc.

## Cofnod Achosion

Bydd y Clerc i'r Panel Apêl yn cadw nodiadau cryno o'r achosion, presenoldeb, pleidleisiau a phenderfyniadau a wnaethpwyd. Ni fydd y nodiadau hyn yn cael eu defnyddio i greu dogfen gyhoeddus.

## Cyflwyno Dogfennau i Rieni

Dylai dogfennau sydd angen eu cyflwyno i Rieni gael eu hanfon drwy bost dosbarth cyntaf neu eu danfon i'r cyfeiriad a roddwyd ganddynt i'r Awdurdod wrth gyflwyno hysbysiad apêl ysgrifenedig.

**ATODIAD “B”**

**APELIADAU GWAHARDDIAD**

**Cyflwyniad**

Pan gaiff disgybl ei wahardd gan Bennaeth o ysgol, dylai’r Rhieni gael gwybod, y dylai hysbysiad apêl, lle bo’n bosibl, gael ei ategu gan gopïau o ddogfennau y maent yn bwriadu eu cynhyrchu yn y gwrandawiad.

Gall apêl godi pan fo’r Pwyllgor Disgyblu ysgol yn cefnogi penderfyniad Pennaeth i wahardd disgybl o ysgol yn barhaol.

Pan fo disgybl wedi’i wahardd yn barhaol, dylai'r Awdurdod Lleol gysylltu â'r rhieni cyn gynted â phosibl i drafod sut y gellid darparu addysg i'r disgybl yn ystod cyfnod y gwaharddiad. . Gallai trafodaethau o’r fath osgoi'r angen am apêl mewn rhai achosion.

**Hysbysiad Apêl**

Rhaid cyflwyno’r apêl yn ysgrifenedig, gan nodi’r rhesymau drosti. Dylai, lle y bo’n bosibl, gael ei ategu gan gopïau o ddogfennau y mae’r Rhiant yn bwriadu eu cynhyrchu yn y gwrandawiad (ym mhob achos, dylai’r rhain gael eu cynhyrchu mewn digon o amser i'w galluogi i gael eu rhannu gyda’r Panel Apêl).

**Hawlliau Cynrychiolaeth**

Mewn apêl gan Riant bydd y Panel Apêl -

(i) Yn rhoi’r cyfle i'r rhieni a’r disgybl a waharddwyd i ymddangos a chyflwyno sylwadau llafar (yn ychwanegol i’r rhesymau ysgrifenedig dros a gyflwynwyd dros yr apêl) a

(ii) Yn rhoi’r cyfle i’r Awdurdod Lleol, y Pennaeth a’r Corff Llywodraethu gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i’r Panel a/neu

(iii) Yn rhoi’r cyfle i Swyddog o’r Awdurdod a enwebwyd gan yr Awdurdod, a llywodraethwr neu gynrychiolydd a enwebwyd gan y Corff Llywodraethu, i ymddangos a chyflwyno sylwadau llafar.

Caiff rhieni y cyfle i ddod â ffrind gyda hwy, neu i gael cynrychiolydd. Mae’r pwyslais ar awyrgylch anffurfiol wedi dangos nad oes angen cynrychiolaeth gyfreithiol yn aml, ond mae’n hollol dderbyniol. Pe bai Rhiant yn cael ei gynrychioli neu ei hebrwng gan ymgynghorydd, dylai Clerc i’r Panel gael gwybod ymlaen llaw. Cyfrifoldeb y Rhiant fydd penderfynu p’un a yw’r rhiant yn mynychu.

Caiff yr holl bartion eu hannog i fod yn bresennol i gyflwyno tystiolaeth, ond cânt wybod os na fyddant yn bresennol ac nad yw'n ymarferol i gynnig dyddiad arall

ar gyfer gwrandawiad, bydd yn rhaid i'r apêl gael ei benderfynu ar sail y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd, ac ar y dystiolaeth a gyflwynwyd ar lafar gan bartion eraill.

**Hysbysiad o Wrandawiad**

Rhaid i rieni gael eu hysbysu'n ysgrifenedig o leiaf 14 diwrnod (10 diwrnod gwaith) cyn dyddiad eu gwrandawiad apêl, oni bai eu bod wedi cytuno i gyfnod byrrach (os bydd Rhieni yn cytuno i gyfnod hysbysiad byrrach, dylent gadarnhau hyn gyda'r Clerc i'r Panel yn ysgrifenedig, neu dros e-bost).

**Paratoi a Chynhyrchu Tystiolaeth**

Rhaid i rieni/person ifanc gael o leiaf 14 diwrnod (10 diwrnod gwaith) o'r dyddiad y rhoddwyd gwybod bod eu cais yn aflwyddiannus i baratoi a chyflwyno eu hapêl ysgrifenedig. Dylai'r holl ddogfennau fod wedi'u cylchredeg cyn y gwrandawiad. Os codir nifer o faterion newydd am y tro cyntaf yn y gwrandawiad, gallai fod angen gohirio i ganiatáu i'r materion hyn gael eu hystyried.

I nifer fach o ddisgyblion sy'n dod i ddiwedd y cyfnod addysg gorfodol, gallai fod yn afrealistig i ddisgwyl iddynt ddychwelyd i'r ysgol yn llwyddiannus. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai'r Awdurdod Lleol, trwy Raglenni Cymorth Bugeiliol, drefnu rhaglen astudio a phrofiad wedi'i dylunio i arwain at addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

**Materion i'w Hystyried**

Rhaid i'r Panel Apêl ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan yr **holl** bartïon cysylltiedig.

Wrth ystyried Apêl Gwahardd, rhaid i'r Panel ystyried p'un a oedd y disgybl penodol yn gyfrifol am yr ymddygiad yr achwynwyd amdano, ac os felly, p'un a oedd gwaharddiad parhaol yn ymateb rhesymol i'r ymddygiad hwnnw. Dylai Paneli Apêl weithredu ar y sail bod yr achosion yn ailwrandawiad cyflawn o'r materion.

**Trefn Achosion**

Cyn dechrau pob gwrandawiad, bydd y Clerc yn esbonio'r gweithdrefnau sylfaenol i'r Rhieni ac yn delio ag unrhyw gwestiynau y gallai fod ganddynt, yn gysylltiedig â'r weithdrefn yn unig, ar ddechrau'r gwrandawiad.

Bydd y Cadeirydd yn esbonio, ar ddechrau'r gwrandawiad, y weithdrefn i'w dilyn ac yn rhoi gwybod i unrhyw Rieni am natur annibynnol y Panel Apêl a bod yr Awdurdod yn rhwym i'w ddarganfyddiadau.

Yn unol ag unrhyw ddiwygiad i'r drefn achosion ganlynol y gallai gael ei gynnig

gan unrhyw un o'r partion a'i gytuno gan y Panel Apêl, bydd y Panel yn gwrando yn y drefn ganlynol:

- yr achos i'r Awdurdod (a gyflwynir fel arfer gan y Pennaeth neu'r cynrychiolydd);
- cwestiynau gan y Rhiant a'r Panel;
- yr achos i'r Rhiant;
- cwestiynu gan yr Awdurdod a'r Panel;
- Sylwadau gan y Corff Llywodraethu;
- cwestiynu gan y Rhiant a'r Panel;
- Cwestiynu gan y Corff Llywodraethu (os oes angen);
- casgliad gan yr Awdurdod;
- casgliad gan y Rhiant.

Yr egwyddor y tu ôl i'r uchod yw y dylai'r ymatebydd ddechrau a'r rhiant / rhieni ddilyn, a dylai unrhyw drydydd parti gael ei gyfyngu i wneud sylwadau neu ymateb i gwestiynau.

Gall y Panel ohirio apêl, er enghraifft, i alluogi rhywun sy'n absennol i fod yn bresennol, i dderbyn tystiolaeth bellach, neu oherwydd salwch neu absenoldeb aelod o'r Panel neu am unrhyw reswm priodol arall.

Os codir nifer o faterion newydd am y tro cyntaf yn y gwrandawiad, gallai fod angen gohirio i ganiatáu i unrhyw barti ystyried y materion. Dylai rhieni gael gwybod os byddant yn cyflwyno gwybodaeth yn yr apêl sydd angen ei gwirio, gallai fod angen ailgynnal yr apêl yn dilyn ymchwiliad i'r materion a godwyd. Gallai hyn olygu bod gwrandawiad yn cael ei glywed ar ddiwrnod gwahanol.

## Penderfyniadau'r Panel Apêl

Mae'r Awdurdod a'r Corff Llywodraethu yn rhwym i benderfyniadau'r Panel Apêl. Pan fo Panel yn penderfynu y dylai disgybl gael ei dderbyn yn ôl, rhaid iddo hysbysu bod y disgybl yn cael ei dderbyn yn ôl ar unwaith neu erbyn dyddiad penodol.

Pe na bai penderfyniad Panel yn un unfryd, yna dylai'r apêl dan ystyriaeth gael ei benderfynu yn ôl y mwyafrif o bleidleisiau.

Bydd penderfyniad y Panel Apêl a'r sail drosti yn cael ei nodi yn ysgrifenedig i'r holl bartïon.

## Cofnod Achosion

Bydd y Clerc i'r Panel Apêl yn cadw nodiadau o'r achosion, presenoldeb, pleidleisiau a phenderfyniadau a wnaethpwyd. Ni fydd y nodiadau hyn yn cael eu defnyddio i greu dogfen gyhoeddus.

**Cyflwyno Dogfennau**

Dylai dogfennau sydd angen eu cyflwyno gael eu hanfon drwy bost dosbarth cyntaf neu eu danfon i'r cyfeiriad a roddwyd wrth gyflwyno hysbysiad apêl ysgrifenedig. Dylai copi o'r holl ddogfennau gael eu hanfon i'r holl bartion perthnasol.